Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Elidyr Cymunedau Camphill

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Choleg Elidyr Cymunedau Camphill

Coleg preswyl annibynnol arbenigol i bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol rhwng 18 a 30 oed yw Coleg Elidyr.

Mae Estyn yn arolygu’r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr a ariennir ar gyfer addysg. Mae un deg pump o’r dysgwyr hyn yn y coleg ar hyn o bryd, ac mae pob un ohonynt yn byw ar y safle mewn un o’r chwech o dai preswyl. Daw mwyafrif y dysgwyr hyn o Gymru. Daw’r dysgwyr eraill o Loegr. Mae un deg tri o ddysgwyr yn ddynion a dwy ohonynt yn fenywod. Mae pob un ohonynt rhwng 19 a 22 oed.

Caiff gwaith y coleg ei ddylanwadu gan athroniaeth Camphill, sy’n pwysleisio dysgu trwy brofiad a dysgu ymarferol. Mae’r cwricwlwm yn cynnwys pynciau’r tir, pynciau galwedigaethol a chrefftau i helpu dysgwyr i ddatblygu’r medrau sydd eu hangen arnynt i fyw yn fwy annibynnol. Mae ystâd y coleg yn cynnwys fferm weithio, gardd gegin a choetir.

Mae tîm arweinyddiaeth, sy’n atebol i fwrdd ymddiriedolwyr, yn arwain y coleg.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Mae’r coleg wedi adolygu ei brosesau a’i arfer yn llwyddiannus i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r ymweliad diwethaf.

Ceir ethos cynnes a chadarnhaol yn y coleg. Mae staff yn deall anghenion dysgwyr ac yn eu cynorthwyo’n sensitif. Maent yn cynllunio sesiynau diddorol sy’n cysylltu’n dda â chynlluniau gwaith a ystyriwyd yn ofalus. Maent yn darparu ystod eang o weithgareddau ysgogol ar gyfer dysgwyr sy’n mynd i’r afael â’u hanghenion yn dda.

Mae bron pob un o’r dysgwyr yn ymgymryd yn dda â thasgau pwrpasol sy’n eu helpu i ddatblygu mwy o annibyniaeth. Er enghraifft, maent yn gweithio yn siop y coleg yn gweini cwsmeriaid ac yn ailgyflenwi stoc.

Mae staff yn cyfathrebu â dysgwyr yn glir ac yn effeithiol, gan ychwanegu at iaith lafar ag arwyddion, symbolau ac adnoddau gweledol lle bynnag y bo angen. Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio arwyddion a symbolau yn hynod effeithiol i’w cynorthwyo i gyfathrebu. Dros gyfnod, mae dysgwyr ag ymddygiadau anodd yn dysgu hunanreoleiddio a rheoli eu hemosiynau.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn rhoi cymorth gwerthfawr i staff i’w galluogi i ddatblygu eu medrau a’u harbenigedd. Er enghraifft, mae pob un o’r staff yn cymryd rhan mewn gweithgorau i ymchwilio a rhoi arfer well ar waith. Mae trefniadau staffio newydd yn galluogi dysgwyr i weithio gyda’r un garfan o staff yn y coleg a’r lleoliadau preswyl. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod y model cymorth cyson hwn yn effeithiol. Y rheswm am hyn yw ei fod yn rhoi parhad i ddysgwyr i ddatblygu eu medrau ar draws lleoliadau amrywiol y coleg.

Mae gan uwch arweinwyr a rheolwyr ffocws clir ar wella. Mae ganddynt gynlluniau eglur, a gefnogir gan randdeiliaid, i symud y coleg ymlaen, gan gynnwys adeiladu hwb addysg a chanolfan les newydd. Mae ymglymiad staff mewn prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn cefnogi eu gallu i ysgogi newid.

O ganlyniad i’r cynnydd a wna dysgwyr ac ansawdd y gofal a ddarperir, mae llawer o ddysgwyr yn aros ymlaen i ddod yn hyfforddeion ar ‘raglen bywydau cynhwysol’ y coleg i baratoi ar gyfer bywyd oedolyn neu ei ddarpariaeth lleoliad preswyl.

### *Meysydd i’w datblygu*

Mae uwch arweinwyr yn dechrau datblygu rhwydweithiau proffesiynol defnyddiol gyda cholegau arbenigol eraill a cholegau addysg bellach, er enghraifft trwy gydweithio ar brosiect Datrysiadau Creadigol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw’r cysylltiadau rhwng y coleg ac ysgolion wedi’u datblygu’n ddigonol. O ganlyniad, ni all staff yn y coleg elwa ar yr arfer orau o’r sector.

Caiff y model cymorth staff newydd ei ymgorffori’n dda. Mae’n ddyddiau cynnar iawn o ran arfarnu effaith y newidiadau ar ddeilliannau dysgwyr.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

**A1 Arfarnu effaith y newidiadau a wnaed yn yr ymagwedd at gymorth, cyfathrebu ac asesu ar ddysgwyr**

**A2 Cynyddu cyfleoedd i gefnogi arfer broffesiynol trwy ymgysylltu ymhellach â chydweithwyr o'r sector ysgolion**

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Defnyddio data asesiadau safonedig, wedi'u gwirio'n allanol, yn effeithiol i arfarnu a dangos cynnydd dysgwyr**

Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r coleg wedi gwneud gwelliannau pwysig i'w brosesau asesu ac olrhain. Wrth wneud hynny, mae wedi gweithio'n dda gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a darparwyr eraill i fynd i'r afael ag anghysondebau ar draws y sector.

Mae'r prosesau newydd yn ymgorffori methodoleg flaenorol y coleg yn effeithiol ar gyfer cydnabod a chofnodi cyflawniad dysgwyr, pecynnau cymorth allanol, meini prawf derbyn a gadael ac integreiddio deilliannau dysgu achrededig ac anachrededig yng nghynlluniau dysgwyr unigol.

O ganlyniad i'r gwelliannau hyn, mae'r coleg yn arfarnu data ar gynnydd dysgwyr yn effeithiol. Mae staff yn defnyddio a diweddaru gwybodaeth am ddysgwyr yn hawdd ar system electronig y coleg ac yn rhannu hyn â dysgwyr, rhieni, gofalwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae systemau a hyfforddiant priodol ar waith erbyn hyn, ond megis dechrau cael eu rhoi ar waith y mae'r gweithdrefnau newydd hyn.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod adroddiad hunanasesu a chynllun gwella ansawdd y coleg yn canolbwyntio'n briodol ar ddeilliannau**

Mae'r coleg wedi symud yn llwyddiannus oddi wrth adrodd ar ffurf naratif i hunanarfarnu sydd â ffocws clir ar wella deilliannau dysgwyr. Mae prosesau cysylltiedig ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant sy'n nodi'n gywir gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r coleg wedi datblygu templed defnyddiol ar gyfer arfarnu ei waith a chynllunio gwelliannau ar sail y fframwaith arolygu cyffredin.

Mae staff yn cymryd rhan mewn hunanarfarnu a chynllunio gwelliannau trwy gyfarfodydd staff a grwpiau dysgu proffesiynol rheolaidd. Mae cyfarfodydd wythnosol â thiwtoriaid a thimau yn canolbwyntio ar gynnydd dysgwyr unigol a strategaethau i gefnogi dysgu. Mae gwybodaeth o'r cyfarfodydd hyn yn bwydo'n uniongyrchol i brosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Caiff cynlluniau dysgu unigol cynhwysfawr, sydd wedi eu seilio ar ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, eu harfarnu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae system ddata effeithiol yn galluogi staff i gofnodi cynnydd, cynllunio'n ofalus, ac olrhain y camau nesaf ar gyfer dysgwyr unigol.

Mae cynllun manwl i ddatblygu'r gweithlu yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ddysgwyr i helpu cynllunio gweithgareddau hyfforddi a datblygiad proffesiynol staff i wella medrau staff mewn cefnogi deilliannau dysgwyr.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/12/2018